# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Tachwedd 2017

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio - Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) - 14 Tachwedd 2017**

(09.00) (Tudalennau 4 - 5)

## 3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Sesiwn dystiolaeth 7 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru)

(09.00-10.00) (Tudalennau 6 - 31)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru

Kate Carr, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru

Papur 1 - Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

**Egwyl 10.00-10.45**

## 4 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(10.45-12.30) (Tudalennau 32 - 60)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol

**Cinio 12.30-13.00**

## 5 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): sesiwn dystiolaeth

(13.00-14.00) (Tudalennau 61 - 72)

Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio

Ian Williams, Llywodraeth Cymru

Ian Walters, Llywodraeth Cymru

Papur 2 - Nodyn Technegol ar gyfer yr Is-bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Gronfa Enillion o Warediadau

Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 29 Tachwedd 2017

(14.00)

## 7 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): trafod y dystiolaeth

(14.00-14.15)

## 8 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: trafod y dystiolaeth

(14.15-15.00)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017

Amser: 09.03 - 11.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/4427) yn:

http://senedd.tv/cy/4427

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Anne Meikle, WWF Cymru<br>Annie Smith, RSPB<br>Hayley Richards, Oxfam Cymru<br>Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Kevin Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Steve O'Donoghue, Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, a oedd yn bresennol fel dirprwy yn lle Eluned Morgan AC, yn dilyn ei dyrchafiad i'r Llywodraeth fel Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: amcangyfrif ar gyfer 2018-19 - 27 Hydref 2017

## 3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: sesiwn dystiolaeth 6 (y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anne Meikle, Cadeirydd y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (WWF Cymru); Annie Smith, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (RSPB Cymru); a Hayley Richards, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (Oxfam Cymru) ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac eitemau 7-10

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2016-17 ac amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2018-19: sesiwn dystiolaeth

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Isobel Garner, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru; a Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid Swyddfa Archwilio Cymru.

## 7 Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2016-17 ac amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2018-19: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol a ganlyn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad arnynt:

- Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017: a
- Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017.

## 9 Goblygiadau ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

9.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a chytunodd i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu pellach.

## 10 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19: trafod ymateb Comisiwn y Cynulliad

10.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Comisiwn y Cynulliad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw.

**Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0694/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Tachwedd 2017

Annwyl Simon

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU) - MEMORANDWM ESBONIADOL /ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL DIWYGIEDIG**

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y newidiadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn dilyn Cam 2.

Mae swyddogion wedi ystyried y gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod Cam 2 a daethant i'r casgliad nad ydynt yn newid yr amcangyfrifon costau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Felly ni fydd yr amcangyfrifon o gostau cysylltu â thenantiaid i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid.

Ni fydd y fethodoleg a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer amcangyfrif effaith ariannol y Bil ar Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid chwaith. Fodd bynnag, diweddarwyd y model er mwyn adlewyrchu: yr ystadegau diweddaraf ynghylch gwerthiant eiddo yn y sector cymdeithasol yn 2016-17; gwerth marchnadol yr eiddo ar gyfartaledd; a'r disgownt a ddarparwyd ar gyfartaledd o dan yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael. Cyhoeddwyd y data hyn ym mis Gorffennaf 2017. Erbyn hyn, mae'r model hefyd yn cynnwys data 2015-16 (y diweddaraf sydd ar gael) ynghylch costau atgyweirio a chynnal a chadw a chostau rheoli Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn olaf, diwygiwyd y model i adlewyrchu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cymeradwyo tri ataliad gwirfoddol ychwanegol (yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chaerdydd) ers cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwaith ail-fodelu hwn wedi arwain at dynhau ychydig ar yr amrywiaeth yn yr amcangyfrif o'r effaith ar gyllid Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o -£69.1 miliwn i +£54.9 miliwn.  Fel y byddwch yn cofio, roedd yr amrywiaeth eang hwn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch nifer a phriodoleddau'r eiddo a fyddai fel arall yn cael ei werthu o dan yr Hawl i Brynu yn y senario waelodlin.

Yn gywir



**Rebecca  Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

# Eitem 3

Trwy ebost

19/09/2017

**Galwad am wybodaeth – Cynigion cyllideb drafft Llywodraeth Cymru am 2018-19: ymateb oddi wrth Comisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Annwyl Simon,

Diolch i chi am roi cyfle i mi gyflwyno fy marn, mewn telerau cyffredinol, ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n achub ar y cyfle hwn i roi gwybod i chi am waith fy swyddfa, yng nghyd-destun sawl maes diddordeb a nodwyd yn eich llythyr ymgynghori ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

1. Rwy'n falch o weld ymwybyddiaeth gynyddol, ymysg cyrff cyhoeddus, o'r potensial sydd i'r Ddeddf fod yn sbardun i achosi newid sefydliadol trawsnewidiol. Cydnabyddir yn eang fod newid ar draws y system mewn diwylliant ac ymddygiad sefydliadau'n hanfodol, er mwyn galluogi'r gwasanaeth cyhoeddus i wynebu heriau ac achub ar gyfleoedd yr 21ain ganrif. Mae nifer cynyddol o gyrff cyhoeddus sy'n dymuno gweithio gyda ni i herio 'busnes fel arfer' drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio i wneud yn fawr o'u cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant. Serch hynny, rwy'n dal i ofidio nad yw'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu'n gyson i herio'r ffordd a wneir penderfyndyniadau a pholisi neu drefniadau llywodraethu yn Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus neu ar lefel lleol. Felly mae risg yn parhau, mewn rhai meysydd o'r gwasanaeth cyhoeddus, o gael ymateb arwynebol, ticio'r blychau, a fydd yn ychwanegu at gostau heb ychwanegu gwerth.
2. Byddai herio a chryfhau'r broses cyllideb yn golygu defnyddio'r pum ffordd o weithio i facsimeiddio'r cyfraniad y byddai gosod cyllideb yn gallu ei wneud, drwy nodau Llywodraeth Cymru, i'r saith amacan llesiant cenedlaethol. Er mwyn gwneud hyn yn dda, bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan, cydnabod bod gweithredu'r pum ffordd o weithio yn golygu her sylfaenol i'r ffordd presenol o weithredu.

**Meysydd Blaenoriaeth**

3. Gan ddymuno achosi newid go iawn, hirdymor, ag adnoddau cyfyng, rydw i wedi gweld angen i adnabod rhai meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ynddynt yn ystod fy nhymor yn y swydd. Dros y 9 mis diwethaf mae fy Swyddfa wedi ymgymryd â phroses bellgyrhaeddol a thrylwyr i osod y blaenoriaethau hyn yn eu lle, gan ymwneud â thros 1,300 o bobl o bob cwr o Gymru, gan gynnwys

cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus ac arbenigwyr polisi, yn ogystal â dinasyddion amrywiol iawn, gan gynnwys grwpiau o bobl ifanc ddigartref, menywod mudol a goroeswyr cam-drin domestig.

4. Gan adlewyrchu fy ymrwymiad i 'gerdded yn ôl troed' y Ddeddf, bu'r broses nid yn unig yn gynhwysol, ond mae hefyd wedi canolbwyntio ar ateb achosion y problemau, yn hytrach na thrin y symptomau'n unig, ac adnabod y meysydd gweithredu hynny ble ceir y cyfle mwyaf i gynhyrchu effaith gadarnhaol ar draws pedair colofn llesiant – amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
5. Gan weithio ar y cyd â Sefydliad Economeg Newydd, fe weithredodd fy Swyddfa offer Dadansoddi Meini Prawf Lluosog i allbwn yr ymarfer hwn, gan adnabod y canlynol fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer fy ngwaith:
   - Creu'r isadeiledd cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar:
     - Gynhyrchu a defnyddio ynni
     - Cynllunio trafnidiaeth
     - Stoc tai
   - Arfogi pobl ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar:
     - Sgiliau ar gyfer y dyfodol
     - Modelau amgen ar gyfer gwella iechyd a lles
     - Atal ac ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

Byddaf yn ceisio cyfleoedd drwy fy rhaglen waith i dynnu sylw at y meysydd hyn yn arbennig.

**Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus**

6. Dros y deuddeng mis diwethaf, rwyf wedi ymgymryd â darn mawr o waith sy'n canolbwyntio ar Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBau). Roedd hyn yn golygu adolygu pob un o'r 19 asesiad llesiant a darparu adborth unigol i bob PSB. Cynlluniwyd y gwaith hwn a'i gyflenwi er mwyn gallu addysgu proses gynllunio llesiant y PSB a'r cyngor, y gorchmynnir fi i'w ddarparu iddynt gan y Ddeddf, ar y camau y maen nhw'n eu cymryd yn eu cynlluniau.
7. Rwyf wedi gweld hyn fel dangosydd cyntaf parodrwydd y PSBau i herio busnes fel arfer a chofleidio'r dulliau newydd o weithio sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Dylid llongyfarch PSBau am y dull cadarnhaol a gymerwyd ganddynt wrth gwblhau'r asesiadau; maen nhw'n gam yn y cyfeiriad cywir, ond maen nhw hefyd yn dangos yn glir ble mae'r gwir heriau i gyrff cyhoeddus, wrth ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi cynhyrchu adroddiad[i] sy'n crynhoi'r gwersi allweddol y gellir eu tynnu o'r ymarfer hwn, hyd yn hyn, er mwyn gallu'i rannu a'i ddefnyddio i addysgu ymarfer pob un ohono. Rwy'n crynhoi'r canfyddiadau allweddol isod.
8. Mae'r dystiolaeth a gynhwysir yn yr asesiadau llesiant a'r modd y mae'n cael ei ddehongli yn rhan greiddiol o wella llesiant ein pobl a'n cymunedau, nawr ac i'r dyfodol. Rwyf wedi adnabod rhai

meysydd allweddol ble mae angen i aelodau PSB a'r rheiny sy'n darparu cefnogaeth yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys fy swyddfa i, ganolbwyntio arnynt er mwyn helpu cyrff cyhoeddus a PSBau i wneud yn fawr o'r Ddeddf, nid dim ond ymarfer ticio blychau, cydymffurfio, ond fel fframwaith er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus er mwyn eu gwneud yn addas i gwrdd ag anghenion cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Ymysg y meysydd allweddol hyn ar gyfer newid mae:

- Tuedd i gwympo'n ôl i ddisgrifio llesiant mewn dulliau traddodiadol yn hytrach na chysylltu data lleol â'r nodau llesiant fel y diffinnir hwy yn y ddeddfwriaeth
- Ateb y diffyg clir o ran galluedd a hyder o ran edrych ar y tymor hir
- Diffyg rhoi ystyriaeth ystyrlon i'r cysylltiadau rhwng materion ac ystyr data mewn cyd-destunau a chymunedau gwahanol

9. Mae'r myfyrio yr wyf i wedi'i wneud ar yr asesiadau, a'r sgyrsiau yr wyf i a'm tîm wedi'u cael gyda phob PSB yn awgrymu fod rhai o'r heriau'n adlewyrch angen am well cyllido, mwy o amser a mwy o gefnogaeth ymarferol ac o ran polisi er mwyn darparu maint y newid sydd ei angen. Serch hynny, maen nhw hefyd yn adlewyrchu'r angen i ddangos yn gliriach barodrwydd i newid, i gamu allan o gilfachau ac i symud i ffwrdd oddi wrth wneud pethau mewn dull byrdymor, fel y gwnaed pethau hyd yn hyn. Mae cyflawni'r Ddeddf yn er a fydd yn galw am yr arweiniad cryfaf posib er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i newid a gynigir ganddo. Bwriad yr adroddiad yw tynnu sylw at yr hyn y mae'r asesiadau'n eu dweud am lesiant (a'r hyn nad ydyn nhw'n ei ddweud), a beth yw ystyr dysgu o'r dulliau yr ymgymerwyd â'r asesiadau o ran cynllunio llesiant.
10. Mae'r adroddiad yn cyflwyno 17 argymhelliad, rhai'n herio PSBau ar y modd y gallent fod wedi syrthio'n ôl i rigol gwneud pethau yn yr hen ddull, rhai argymhellion ynghylch sut y mae angen i asesiadau esblygu a'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen newid er mwyn galluogi cynllunio llesiant i ddigwydd a fydd yn creu'r newid mawr sydd ei angen arnom ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddaf yn cadw llygad barcud ar y modd y bydd PSBau a chyrff cyhoeddus yn ymateb i'r argymhellion hyn, gan eu cysylltu â'r meysydd blaenoriaeth, a fydd yn ffocws i'm swyddfa i.

**Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus**

11. Ar ôl cael cyfnod o ymwneud eang, rydw i ar fin ymgymryd â darn mawr o waith a fydd yn archwilio ac yn esbonio'r oblygiadau ymarferol i bob corff cyhoeddus o ddefnyddio'r pum dull o weithio i wneud yn fawr o'u cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant. Fy mwriad yw gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau o bob cwr o'r gwasanaeth cyhoeddus, y trydydd sector a'r byd academaidd. Byddaf hefyd yn archwilio sut y gallwn ni wneud yn siŵr fod y gwaith hwn wedi'i

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

wreiddi ym mhrofiad bywyd dinasyddion. Mae'r rhaglen waith hon, a elwir yn Gelfyddyd yr Hyn sy'n Bosib, yn nodwedd allweddol o'n dull Addas i'r Dyfodol o gefnogi a herio cyrff cyhoeddus, a bydd yn:

- Darparu sylfaen ar gyfer newid parhaus, gan ganolbwyntio ar yr hirdymor;
- Ymgrymuso gweision cyhoeddus i fod yn weithredwyr newidiadau;
- Adeiladu maint a gallu mewn cyrff cyhoeddus drwy gyfrwng dysgu parhaus, ymwybodol ar y cyd;
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio er mwyn cael mynediad i a gweithredu arbenigedd, a gwybodaeth leol a rhanbarthol;
- Integreiddio a deall y rhyng-ddibyniaeth rhwng nodau;
- Canolbwyntio ar feysydd newid allweddol, gan gynnwys: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg a rheoli perfformiad.

12. Mae'r canllawiau craidd, 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol', a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu'r Ddeddf, yn adnabod saith maes mewn gweithgareddau corfforaethol 'ble mae angen i'r newid ddigwydd'. Y rhain yw cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg a rheoli perfformiad. Bydd hyn hefyd yn darparu ffocws allweddol i'm gwaith i gyda chyrff cyhoeddus hefyd, o ran oblygiadau ymarferol diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion.
13. O ganlyniad i gyfarfodydd â'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a rhwng fy Swyddfa i a'i swyddogion ef. Rydym ni wedi cytuno ar nifer fechan o feysydd sy'n gysylltiedig â chyllid ble gellid gweithredu mewn dull cryno er mwyn ymgorffori'r pum dull o weithio. Y meysydd yw:
    - Caffael;
    - Cyllidebu Cyfranogol; a
    - Datgarboneiddio (asesiad carbon).
14. Mae fy Swyddfa'n ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn er mwyn darganfod sut y gellir defnyddio'r pum dull o weithio a'r gofyniad statudol i gymryd pob cam rhesymol (wrth ymarfer ei swydogaethau) i gwrdd a'r nodau hynny yn gallu cael eu defnyddio i yrru dulliau a deilliannau gwahanol yn y meysydd hynny. Her allweddol, yn achos caffael, yw sicrhau fod pob tamaid o'r £6 biliwn sy'n cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau gan y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei wario'n gynaliadwy. Mae adborth yn awgrymu mai un rhwystr allweddol i gynnydd yw ffocws rhy gul ar arbedion arian parod, yn hytrach na gwneud yn fawr o bob cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant. Her allweddol o ran asesu carbon fydd sicrhau fod yr wybodaeth a ddarperir gan yr asesiadau carbon yn dod yn greiddiol i wneud penderfyniadau, mewn cyrff cyhoeddus. Ymysg rhwystrau i wneud gwell penderfyniadau mae dulliau cul, byrdymor o weithredu cysyniad 'gwerth', dulliau traddodiadol i gyllidebu, cyfrifo ac adrodd, ac asesu risg.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

15. Mae Bargen Ddinas Caerdydd yn darparu enghraifft o'r modd y mae angen gwneud cryn dipyn o waith eto i sicrhau fod y cynlluniau sy'n cael eu gweithredu gan gyrff cyhoeddus, a'r modd y maen nhw'n bwriadu gwario arian cyhoeddus, yn ymdrin yn gywir â phrofiad bywyd dinasyddion ac yn enwedig yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, Rwyf wedi amlinellu wrth lythyru â nhw rai o'r heriau a'r cwestiynau y mae'n rhaid i'r Fargen Ddinesig eu hwynebu, gan gynnwys:
    - Sicrhau fod y cyfleoedd busnes a fydd yn cael eu ceisio drwy gyfrwng y fargen Ddinesig yn addas i economi carbon isel
    - Sicrhau fod buddsoddiadau a gynigir mewn isadeiledd trafnidiaeth yn lleihau'n realistig y gost amgylcheddol o deithio ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rhaid iddo ystyried anghenion teithio'r dyfodol, megis newidiadau mewn patrymau gweithio, dulliau o deithio a'r oblygiadau sy'n dod yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio.
    - Gweithredu ar anghyfartaleddau mewn iechyd a llesiant a thorri'r cylchoedd tlodi sy'n bodoli rhwng cenedlaethau.
    - Gosod mecanweithiau ar waith i sicrhau fod llais y gymuned yn yrrwr allweddol i'r datblygiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r rhaglen hon.

**Gwario Cyhoeddus ar Atal**

16. Mae gwneud cynnydd o ran gwario cyhoeddus ar atal yn hanfodol o ran diogelu gallu cenhedloedd y dyfodol i gwrdd â'u hanghenion. Mae'r mater hwn wedi bod yn nodwedd bwysig wrth i mi drafod gyda'r Llywodraeth, yn arbenning mewn perthynas a gwariant iechyd.
17. Fe nodais yn yr argymhellion oedd yn berthnasol i wariant atal a wnaed gan eich Pwyllgor yn y broses o graffu ar gyllideb 2017-18, ac fe dynnais sylw at yr argymhellion gerbron Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, pan fu i ni'n dau gwrdd ym mis Ebrill, am fy mod yn teimlo y dylai ei gyllideb ef fod yn arwain y ffordd wrth gefnogi buddsoddi mewn atal. Roedd eich argymhellion chi'n glir iawn a gobeithio y gwelwn dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu arnynt dros y flwyddyn ddiwethaf.
18. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nodais yr angen i sicrhau bod Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn blaenoriaethu atal, h.y. atal yr angen i bobl ddefnyddio gwasanaethau yn y lle cyntaf a lleihau'r angen am wasanaethau dros amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag atal sylfaenol sy'n anelu at atal problemau yn amlygu eu hunain (yn hytrach nag atal eilradd sy'n canolbwyntio mwy ar atal problemau rhag gwaethygu). Mewn llawer o achosion, mae atal sylfaenol yn gofyn am well cydweithio ac integreiddio ar draws ystod o wasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar weithredoedd in maes, fel yr GIG.
19. Yn y tystiolaeth ysgrifenedig cyfeirwyd at Brifysgol Stirling[ii] a gyhoeddwyd papur defnyddiol am 'pam mae cymaint o fwlch rhwng ein disgwyliadau am bolisi ataliol a'r hyn sy'n digwydd?' Fe'i rhestrir

ystod o rwystrau i atal sy'n ymateb yn dda i'r cydestun polisi Cymreig. Maent yn cynnwys dealltwriaeth a diffiniadau gwahanol o atal, yr anhawster o fesuro buddiannau a llwyddiant a'r ffaith nad yw ffyrdd presennol o reoli perfformiad yn galluogi neu yn cymell atal.

20. Mae fy swyddfa'n gweithio mewn partneriaeth â hỳb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddangos ein cefnogaeth i gyrff GIG ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r agenda atal yn rhan allweddol o'r cydweithio hwn, gan gynnwys archwilio rôl Cynlluniau Integredig Tymor Canolig mewn galluogi symud i fuddsoddi mewn atal, a hefyd drwy ddarparu cefnogaeth a her i'r tîm sy'n gweithio ar yr Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'u camau nesaf.
21. Yn fwy diweddar rwyf wedi cael cyfarfodydd a chyfnewid gohebiaeth gyda Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol lle nododd bod y Ddeddf yn darparu diffiniad o atal, erbyn hyn wedi'i sefydlu mewn cyfraith ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Cymru i fewn i ddarganfyddiad o sut mae atal yn cael ei ystyried mewn creu polisiau a thrin cyllidebau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y byddant yn tynnu ar waith a wnaethpwyd gan y Tasglu Gweithredu Cynnar. Rhoddodd wybod i mi fod swyddogion yn gwerthuso'r ffordd mae atal yn cael ei gategoreiddio ar hyn o bryd er mwyn cytuno ar ddiffiniadau ar gyfer y dadansyddiad cyllideb. Yn fy marn i mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn darganfod a chytuno ar ddiffiniad er mwyn tracio cynydd mewn gweithredu fel hyn o fewn y ddeddf.
22. Yn fy ymateb i'r Adolygiad Seneddol pwysleisodd y pwynt bod 'atal sylfaenol o afiechyd angen bod yn nodwedd llawer mwy amlwg yn y raison d'etre cyrff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddai atal afiechyd, drwy ymyriadau effeithiol, yn hytrach nag ymateb i afiechyd gydag ymyriadau clinigol drudfawr, yn sicrhau ymagwedd cynaliadwy i ddeilliannau gwell a gwerth gorau mean iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fe'i ddyliai fod yn rhan o fusnes craidd pob un o'r Byrddau Iechyd ac dylid herio unrhwy duedd tuag at gategoreiddio polisi ac ymarfer atal fel cyfrifoldeb corf neu gasgliad o gyrff tu allan Byrddau Iechyd'
23. Ar y llaw arall, mewn gwasanaeth cyhoeddus sy'n cydweithio yn effeithiol i ddarparu ymagwedd integredig, ni all buddsoddi mewn atal ymwneud â'r GIG yn unig, ac mae gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus botensial enfawr i helpu i alluogi newid i atal ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, drwy gyfrwng y dulliau y maen nhw'n eu cymryd i gyllido'u nodau llesiant nhw ar y cyd. Ni allwn fforddio colli'r cyfle hwn i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth i ddymchwel cilfachau sefydliadol, a chydweithio'n ystyrlon ar lefel ymarferol yn ogystal â strategol.
24. Mae hi'n hanfodol ein bod ni'n gwneud cynnydd o ran gwario cyhoeddus ar atal yn nhermau diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion, ac am y rheswm hyn bu'r mater hwn yn nodwedd bwysig o'm trafodaeth â'r llywodraeth.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Trin yr hirdymor**

25. Rwyf wedi adnabod nifer o fentrau rhyngwladol a allai gefnogi gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys Adrodd Integredig, Fframwaith Rhyngwladol: llywodraethiant da yn y sector gyhoeddusiii ac Ymchwiliad y Cenhedloedd Unedig, 'Y System Gyllid sydd ei Hangen Arnom'iv. Bydd pob un o'r mentrau hyn yn addysgu fy null Addas i'r Dyfodol o ddarparu her a chefnogaeth i gyrff cyhoeddus.
26. Yn 2018 bydd Cymru'n derbyn y ddogn gyntaf o drethi sydd newydd gael eu datganoli. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cael grymoedd benthyg sylweddol yn y cyfnod hanesyddol hwn. Bydd grymoedd o'r fath yn rhoi mwy o atebolrwydd ariannol i Lywodraeth Cymru, a fydd yn galw am graffu manwl yn y Pumed Cynulliad.
27. Mewn cyfnod cymharol fyr o amser, bydd faint o wariant Llywodraeth Cymru a ariennir drwy drethiant yn codi i ryw 25%, gyda lleihad cyfatebol yn y grant bloc. O ystyried y gofid dealladwy am godi cyllid i gefnogi gwariant cyhoeddus presennol, rwy'n disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau fod ei gynlluniau ar gyfer defnyddio grymoedd ariannol yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth Cymru'n gweithredu'r pum dull o weithio er mwyn gwneud yn fawr o'i gyfraniad, drwy gyfrwng y cyfle hanesyddol hwn, i gyflawni anghenion pob un o'r nodau llesiant. Mae Ymholiad y Cenhedloedd Unedig, 'Y System Ariannol sydd ei Hangen Arnom' wedi cynhyrchu cyfoeth o dystiolaeth i addysgu a chefnogi system ariannol gynaliadwy. Fy nisgwyliad yw y bydd Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r ymarferiad hwn ac yn ei ddefnyddio i addysgu datblygu'i rymoedd ariannol newydd. bydd hefyd yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol dynnu ar yr Ymchwiliad i addysgu'r modd y mae'n craffu ar y grymoedd newydd hyn.
28. Mae'r adroddiad 'Now for the Long Term'[v] gan 'The Oxford Martin Commission' hefyd yn tynnu sylw at broblemau gyda dulliau cyfredol llywodraethu a phenderfyniadau ariannol, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer eu datrys. Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw yn arbennig at y confensiwn cyfrif o ddisgowntio fel problem arbennig, ac yn dod i'r casgliad na ddylid gwahaniaethu yn erbyn cenedlaethau'r dyfodol oherwydd y byddant yn cael eu geni yfory ac nid heddiw.
29. Tra bo Ymchwiliad y CU yn canolbwyntio ar farchnadoedd arian rhyngwladol a rheoleiddio, mae'n tynnu sylw at rôl polisi cyhoeddus a chyllid cyhoeddus. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i waith Trysorlys Cymru, Awdurdod Refeniw Cymru a Banc Datblygu Cymru. Ymysg rhai o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, 'Y System Ariannol sydd ei Hangen Arnom: o fomentwm i drawsnewidiad', mae:
    - **Mae polisi, marchnad a gyrwyr rhyngwladol ehangach yn gwreiddio'r momentwm hwn.**
        - Mabwysiadu Nodau Datblygu cynaliadwy a Chytundeb Paris ar newid hinsawdd.
        - Blaenoriaethau datblygu cenedlaethol, yn enwedig yn achos gwledydd sy'n datblygu.

- Ymdrechion i gywiro methiannau yn y farchnad a pholisi ar draws y system ariannol.
- Cynnydd mewn tarfu technolegol ar y system ariannol. » Cynnydd mewn disgwyliadau cymdeithasol o berfformiad y system ariannol.
- Cyllid gwyrdd yn dod yn ffactor gystadleuol i fusnesau a chanolfannau ariannol.

- **Mae momentwm heddiw'n dal i fod yn annigonol i ddarparu'r trawsnewidiad sy'n angenrheidiol i ariannu datblygiad cynaliadwy.**
  - Mae cyfalaf naturiol yn parhau i ddirywio'n beryglus, ynghyd ag anghyfartaledd cymdeithasol cynyddol ac anfodlonrwydd
  - Mae llif arian a stoc gynaliadwy yn parhau i fod yn ymylol i wasgariad cyfalaf yn fyd-eang
  - Mae'r system ariannol yn dal i fod yn ddigyswllt oddi wrth anghenion hirdymor yr economi go iawn.
  - Bygythir sefydlogrwydd ariannol fwyfwy gan effeithiau economi anghynaladwy heddiw
- **Gall camau allweddol ailgyfeirio pwrpas ac effaith y system ariannol i wasanaethu'r economi go iawn wrth iddi newid i ddatblygu cynaliadwy.**
  - Angori cynaliadwyedd mewn strategaethau cenedlaethol ar gyfer diwygio a datblygu ariannol.
  - Cyfeirio blaengarwch technolegol i gyfeiriad datblygu ariannol cynaliadwy.
  - Gwireddu potensial pwysau triphlyg cyllid cyhoeddus. Codi ymwybyddiaeth ac adeiladu galluoedd ar draws y system.
  - Gwreiddio cynaliadwyedd i mewn i ddulliau, offer a safonau cyffredin ar draws y system ariannol.

**Asesu Effaith**

30. Cynhwysodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Integredig Strategol yn naratif cyllideb ei Gyllideb Ddrafft 2017-2018. Darparodd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol esboniad o'r broses a oedd wedi addysgu a ffurfio proses wneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2017-18. Darparodd hefyd ddisgrifiad o uchelgeisiau a bwriad polisi. Yr hyn na wnaeth oedd asesu effeithiau negyddol a chadarnhaol tebygol y penderfyniadau cyllidebol.
31. Ochr yn ochr â'r cyrff cyhoeddus eraill a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Weinidogion Cymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'n rheidrwydd arnynt hefyd i 'Weithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion'. Mae hi'n bwysig fod Gweinidogion Cymru'n arwain drwy esiampl, yn hyn o beth, a sicrhau fod asesiadau effaith i'r dyfodol yn rhoi darlun clir o ddisgwyliadau cadarnhaol a negyddol effeithiau cyllideb. Bydd hyn yn bwysig os bydd Gweinidogion Cymru, a Llywodraeth Cymru, yn debygol o ddwysau'u dealltwriaeth

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

dros amser o'r modd y mae penderfyniadau cyllido'n debygol o effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion. Adrodd integredig

32. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol 2017-18 y cyfeirio'n sydyn iawn at y Ddeddf. Dim ond at ddau o'r pum dull o weithio y mae'n cyfeirio atynt, ac mae'n esbonio sut y bydd 'gwario'n cydbwyso rhwng y tymor byr a'r tymor hir', ble mae gofyn i Weinidogion Cymru mewn gwirionedd 'weithredu mewn dull sy'n ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdi ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion'.
33. Buaswn i'n disgwyl i Asesiadau Effaith Integredig Strategol y dyfodol ganolbwyntio ar weld a yw'r cynigion cyllideb drafft yn debygol o helpu Gweinidogion Cymru i gymryd yr holl gamau rhesymol i gwrdd â'u nodau llesiant, a thrwy hynny wneud yn fawr o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Buaswn hefyd yn disgwyl i'r Asesiad Effaith adnabod effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol penderfyniadau cyllideb yng nghyd-destun yr egwyddor datblygi cynaliadwy, drwy ymdrin â' phob un o'r pum dull o weithio.
34. Bydd defnyddio'r pum dull o weithio fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru'n helpu i sicrhau ei fod yn addas i'r dyfodol. Bydd defnyddio'r pum maes canlynol i fframio'r asesiad yn helpu i brofi a fydd yr effaith tebygol yn gadarnhaol ynteu'n negyddol, o ran cwrdd â nodau Llywodraeth Cymru. Buaswn i'n disgwyl Asesiadau Effaith Strategol y dyfodol i ystyried y canlynol:
    - ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr 'â'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor, yn enwedig pan all pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr arwain at effaith niweidiol hirdymor';
    - angen i ddilyn dull integredig o weithio, drwy ystyried:
        - sut y gall penderfyniadau cyllideb effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gwrdd â'i nodau llesiant, a gwneud yn fawr o'i gyfraniad i bob un o'i nodau llesiant;
        - sut y gall penderfyniadau cyllideb effeithio ar ei gilydd neu ar nodau cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig, ble gall penderfyniadau cyllideb gyfrannu at gwrdd ag un nod, ond gall fod yn niweidiol i'r gwaith o gwrdd ag un arall;
        - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau fod y rheiny sy'n ymwneud â'r cyfan yn myfyrio ar amrywiaeth y boblogaeth;
        - sut y gallai gweithio ar y cyd helpu'r corff i gwrdd â'i nodau llesiant, neu helpu corff arall i gwrdd â'i nodai, drwy adnabod effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol y cynigion cyllideb; a
        - a fyddai effaith debygol y cynigion cyllidebol yn cyfrannu at gwrdd â nodau llesiant Llywodraeth Cymru, neu nodau corff cyhoeddus arall, drwy ddyrannu adnoddau i rwystr problemau rhag digwydd neu waethygu.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

35. Mae’r Ddeddf yn gorchymyn i gyrff cyhoeddus gynnal datblygu cynaliadwy, gan gynnwys gosod, cyhoeddus a chymryd camau i gwrdd â’r nodau hynny a gynlluniwyd i wneud yn fawr o’u cyfraniad i bob un o’r nodau llesiant. Byddai defnyddio’r ddyletswydd hon i weithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhoi fframwaith dealladwy a chyson ar gyfer asesu effaith cynigion cyllidebu. Byddai denu ystod o randdeiliaid allweddol i ymwneud â’r asesiad effaith hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach, fwy cyson, o’r effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol, ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.
36. Buaswn i’n disgwyl i’r broses asesu effaith a denu i redeg ochr yn ochr â, ac i addysg, datblygu’r cynigion cyllideb. Byddai hyn yn galluogi’r Asesiad Effaith Integredig Strategol i gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r gyllideb ddrafft a, thrwy hynny, i fod ar gael i gefnogi ac addysgu craffu.
37. Mae’r gwaith a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a’m swyddfa i, hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i addysgu craffu, mae’r Ddeddf yn rhoi grym i mi ddarparu cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae fy swyddfa i’n gweithio’n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi ddatblygu dull o gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol yng nghyd-destun y Ddeddf, Mae’r gwaith hwn hefyd yn addysgu’r modd yr ydw i’n taclo fy nyletswydd i fonitro ac asesu. Sylfaen allweddol ar gyfer y gwaith hwn yw Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr. Bydd hwn yn cael ei wreiddio gan raglen o waith ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu, ac i gefnogi dull mwy unedig o fonitro ac asesu.

Yr eiddoch yn gywir,



Sophie Howe

**Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru**
Siambrau’r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru **Future Generations** Commissioner for Wales

**Cyfeiriadau**

---

[i] Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory - dysgu o Asesiadau Llesiant 2017
https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/07/CCDC_Llesiant_yng_Nghymru_cynllunio_heddiw_ar_gyfer_gwell_yfory_2017_edit-1.pdf

[ii] Preventative Spend – policy briefing, University of Stirling
http://www.stir.ac.uk/media/schools/socialsciences/sass-ed/images/documents/Preventative%20spend.pdf

[iii] International Framework: good governance in the public sector by IFAC and CIPFA
http://www.cipfa.org/policy-and-guidance/standards/international-framework-good-governance-in-the-public-sector

[iv] UNEP The Financial System We Need: from momentum to transformation
http://unepinquiry.org/publication/the-financial-system-we-need-from-momentum-to-transformation/

[v] Now for the Long Term: the Report of the Oxford Martin Commission for Future Generations
http://www.oxfordmartin.ox.ac.uk/downloads/commission/Oxford_Martin_Now_for_the_Long_Term.pdf

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

# Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

## Nodyn Technegol ar gyfer yr Is-bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Gronfa Enillion o Warediadau

1. Ymgymerodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd dros Gymunedau a Phlant â'r gwaith o ddarparu nodyn technegol ar y Gronfa Enillion o Warediadau yn ystod sesiwn dystiolaeth yr Is-bwyllgor ar 24 Hydref 2017.

2. Mae'r Bil yn cynnig diddymu Adrannau 24 - 26 o Ddeddf Tai 1996, er mwyn dileu'r gofyniad cyfrifyddu a dileu'r cyfyngiad ar y ffordd y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wario'r enillion. Mae hyn yn dileu gallu Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r defnydd a wneir o'r Gronfa Enillion o Warediadau.

3. Mae Adrannau 24 i 26 o Ddeddf Tai 1996 yn nodi ei bod yn ofynnol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddangos enillion net o warediadau ar wahân yn eu cyfrifon, a bod Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo'r defnydd a wneir o'r gronfa, a gofyn am wybodaeth gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'r gronfa.

4. Dyma yw enillion net o warediadau landlord cymdeithasol cofrestredig:
   (a) enillion gwerthiant net a dderbynnir ganddo mewn cysylltiad ag unrhyw warediad tir i denant;
      (i) yn unol â'r hawl a roddir gan adran 16 neu adran 180 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (hawl tenant i gaffael annedd);
      (ii) y rhoddwyd grant mewn cysylltiad ag ef o dan adran 21 (grant prynu mewn cysylltiad â gwarediadau eraill);
      (iii) y rhoddwyd grant mewn cysylltiad ag ef o dan adran 19 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 mewn cysylltiad â disgowntiau a roddir ganddo ar y gwarediad i'r tenant.
   (b) taliadau grant a dderbynnir ganddo o dan adran 20 neu 21 (grant prynu)
   (ba) taliadau grant a dderbynnir ganddo o dan adran 19 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 mewn perthynas â disgowntiau a roddir ganddo ar warediadau anheddau i denantiaid
   (c) pan fo unrhyw grant a nodir ym mharagraff (b) neu (ba) wedi cael ei dalu iddo, unrhyw ad-daliadau disgowntiau y cafodd y grant ei roi mewn perthynas â nhw
   (d) unrhyw enillion eraill o werthiannau neu daliadau grant (os o gwbl) fel y gall Gweinidogion Cymru eu pennu o dro i dro.

5. Mae Penderfyniad Cyffredinol 1997 ynghylch cymhwyso neu ddyrannu enillion o warediadau yn amlinellu at ba ddibenion y gellir defnyddio'r gronfa enillion o warediadau. Mae'r defnydd a ganiateir yn cynnwys defnydd at ddibenion darparu, caffael, gwella neu drawsnewid anheddau er mwyn eu gosod, neu gaffael tir i'w ddatblygu yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r enillion gael eu defnyddio o fewn tair blynedd i'w derbyn, ac fel arfer cânt eu defnyddio yn yr ardal awdurdod lleol lle cawsant eu creu.

6. Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y pwerau i gyfarwyddo'r defnydd a ganiateir o'r enillion hyn fel un o ddangosyddion cydrannol rheolaeth y sector cyhoeddus drwy offerynnau galluogi/rheolaethau gormodol. Felly, mae angen dileu'r pŵer er mwyn i'r Bil allu cyflawni ei amcanion.

7. Bydd angen sicrhau bod trefniadau pontio ar waith i ymdrin â chronfeydd presennol. Pan fo gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gronfa enillion o warediadau ar adeg diddymu’r ddeddfwriaeth, bydd angen i'r trefniadau sicrhau na fydd y diddymiad yn dod i rym mewn perthynas â'r gronfa honno tan naill ai bod y gronfa wedi dod i ben, nad yw bellach yn gallu defnyddio'r gronfa yn unol â Phenderfyniad 1997 neu bod y dyddiad terfyn o dair blynedd wedi pasio.

8. Bydd yr offeryn yn darparu nad yw'n ofynnol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig dalu rhagor o arian i'w gronfa enillion o warediadau ar ôl i adrannau 24 a 25 o Ddeddf Tai 1996 gael eu diddymu, a lle caiff y gronfa enillion o warediadau ei throsglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gan Landlord arall, caiff ei y Landlord hwnnw ei drin yn yr un modd â'r Landlord blaenorol mewn perthynas â'r gronfa honno.

9. Cesglir gwybodaeth am y Gronfa Enillion o Warediadau oddi wrth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynghyd â ffurflen flynyddol y "Grantiau Ailgylchu Cyfalaf" er cyfleustra. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi adrodd ar y sefyllfa bresennol, gan nodi na fydd dileu'r gofyniad cyfrifyddu hwn yn effeithio dim ar weithrediadau'r Landlordiaid o ddydd i ddydd, gan bod unrhyw enillion o dan y darpariaethau hyn yn cael eu defnyddio at y dibenion, ac i’r amserlenni a nodir ym mhenderfyniad 1997 a bod y balans yn y cronfeydd, ar lefel ymarferol, yn ddim.

**Noder - Defnyddir y Grant Ailgylchu Cyfalaf fel modd o ailgylchu'r Grant Tai Cymdeithasol a Grantiau eraill. Mae'n ofyniad ar wahân ac nid yw’r Bil hwn yn effeithio arno.**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon